

❖ ROEDD HI'N UFFERN AR Y DDAEAR

*Mam ym Methlehem***Darllen: Mathew 2:13–18****Myfyrdod**

Roedd hi'n uffern ar y ddaear,
y diwrnod gwaethaf yn fy mywyd.
Milwyr! – oer, creulon, didostur –
yn cipio ein plant oddi wrthym,
yn anwybyddu ein cri am drugaredd
a sgrechiadau arswydus y plant,
a'u difa mewn gwaed oer o flaen ein llygaid.
Does dim geiriau all ddisgrifio'n teimpladau –
yr ofn, yr arswyd,
y gwacter, y dicter,
a mwy na dim y diymadferthedd –
ein hanallu i wneud dim
wrth i'n byd ddadfeilio.
Un funud yr oedd ein bywyd yn llawn addewid,
y funud nesaf yn gwbl amddifad.
Un funud yr oeddem yn chwerthin gyda'r plant,
a'r funud nesaf yn wylo wrth eu claddu.
Pam bu'n rhaid i hyn ddigwydd?
Beth a feddiannodd Herod i wneud y fath beth?
A mwy na dim, sut gallai Duw ganiatáu'r gyflafan?
Ni allaf weld fy hun yn deall hynny tra byddaf byw!
Taflwyd cwmwl dros y cwbl, hyd yn oed fy ffydd,
oherwydd ni allaf lai na meddwl
am un cyfnod digon tebyg yn hanes ein cenedl,
ganrifoedd yn ôl,
pan fu i Pharo,
ar ôl marwolaeth eu cyntaf anedig
ollwng ein pobl yn rhydd.
Pennod ogoneddus yn ein hanes, medden nhw,
a hwyrach mai gwir oedd hynny,
ond ni allaf beidio â meddwl am yr holl famau,
eu gwewyr a'u poen,
wrth i ni gerdded ar ein taith i ryddid.
Fe'n harbedwyd y pryd hynny,
ond nid y tro hwn –
y tro hwn gorfu i ni wynebu holl rym diawlineb y byd,
y diafol wedi'i ymgorffori,
dynoliaeth ar ei gwaethaf –
a'r cyfan oherwydd fod Herod wedi clywed sibrydion
fod Meseia wedi ei eni
yma ym Methlehem.
Am ba hyd eto?
Am ba hyd, yr holl ddiodefaint,
cyn i Dduw ymyrryd?
Y mae'n ymddangos i mi,
os yw'n caru'r byd fel y dywed ei fod,
yna mae'n bryd iddo ddarparu

aberth arall,
a'r tro hwn i'n hachub i gyd,
nid yn unig yr etholedig rai.

Gweddi

Arglwydd,
mae'n anodd dal ati i gredu weithiau.
Daw bywyd â'i lawenydd a'i harddwch,
daw hefyd â'i boen a'i alar.
Ni allwn weld synnwyr mewn dim
ac ni allwn ddeall pam dy fod yn caniatáu'r fath ddiflastod.
Ond yn Iesu Grist
dangosaist i ni mai
nid difater gennynt ein poen a'n hangen.
Yr wyt ti yn rhannu ein gofid
ac yn teimlo ein poen
ac yn cyd-ddioddef â'n gwendid.
Rho i ni olwg newydd
ar y galon sy'n gwaedu trosom
a'r dwylo briwedig sy'n trin ein clwyfau.
Nick Fawcett, cyf. Olaf Davies